\

COFNODION CYFARFOD
O BWYLLGOR RHEOLI CAE MAESYDERI
27 HYDREF 2009 AM 7.00PM
SWYDDFA MENTER LLAMBED, LLANBEDR PS

YN BRESENNOL

CYNGOR TREF LLANBEDR PS
Cyng. Maer Selwyn Walters (Cadeirydd)
Cyng Robert Phillips (Is-Gadeirydd)
Cyng. Cecilia Barton; Chris Thomas; Derek Wilson
MUDIAD MYDTARA
Sue Davies – Maesyderi, Llambed
Lizzie James - Gwêl-y-Creuddyn
YN GWEINYDDU
Eleri Thomas – Clerc Cyngor Tref Llambed

1. CROESO'R CADEIRYDD

Croesawodd y Maer Selwyn Walters aelodau'r Cyngor Tref a chynrychiolwyr MYDTARA i'r cyfarfod.

2. YMDDIHEURIADAU

CYNGOR SIR CEREDIGION
Cyng Robert (Hag) Harris
Cyng Ivor Williams
CLWB RYGBI A PHÊL DROED LLANBEDR PS
Cyng. Greg Evans.
MUDIAD MYDTARA
Carol Davies

3. DATGELU BUDDIANNAU PESONOL
Dim.

4. COFNODION CYFARFOD 22/09/2009
Cytunwyd i gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd yn Swyddfa Menter Llambed ar Ddydd Mawrth 22ain o Fedi 2009 fel cofnod cywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

5. MATERION YN CODI

5.1 TORRI GWAIR

Adroddwyd bod Mr Mike Brown, Caerfoel, Cribyn wedi torri'r gwair ar 4 achlysur (y 4ydd toriad ar yr 27ain Hydref) ers canol Medi. Roedd y cytundeb wedi cynnwys 6 toriad cyn ddiwedd Tachwedd. Penderfynwyd, rhwng cyfarfodydd i ofyn i Mr Brown i ohirio'r 2 doriad olaf tan y flwyddyn nesaf gan fod aelodau o'r farn na fyddai'r gwair yn tyfu llawer yn ystod gweddill y flwyddyn.
Y mae Mr Brown wedi cytuno i'r trefniant hwn.

5.2 GWAIR SY'N TYFU YR OCHR ALLANOL I'R FFENS AC YN AGOS i GWRBYN YR HEOL SY'N ARWAIN i STÂD MAESYDERI
Cysylltodd Eleri Thomas â'r Cyngor Sir Ceredigion (CSC) ynghynt yn y dydd i'w hatgofio o'r mater – ***yn disgwyl ateb oddi wrthynt parthed torri'r gwair sy'n tyfu yr ochr allanol i'r ffens ac yn agos i gwrbyn yr heol sy'n arwain i stâd Maesyderi.***

5.3 TOCIO'R PERTHI
Cytunodd y Cyng. Chris Thomas i docio ac i osod y berth.

5.4 Y FFENS
Bydd y ffens yn cael ei drwsio'n ystod y dyfodol agos. Dywedodd y Cyng Ifor Williams mewn cyfarfod, ynghynt yn y flwyddyn, y byddai'n cysylltu â Mr Spencer Defriend CSC i ofyn tybed a fyddai'n bosibl i'r cyngor sir i drwsio'r ffens – ***yn disgwyl ateb gan y Cyng. Williams.***

5.5 BINIAU SBWRIEL
Bu i'r Cyng. Phillips ymwneud ag ymholiadau â'r CSC parthed gwacau'r biniau- ***yn disgwyl ateb oddi wrthynt.*** Bydd y mater o leoli biniau sbwriel yn y cael ystyriaeth yn ystod y dyfodol.

5.6 ARWYDDION
Boed i'r Cyng Wilson a Chyng. Thomas osod yr arwydd yn datgan *Dim Cŵn, Dim Sbwriel*, *Dim Mynediad heb Ganiatâd* mewn lle, ar 2 achlysur. Siomedig oedd aelodau i glywed bod aelodau'r cyhoedd wedi tynnu'r arwydd i ffwrdd am yr eildro. ***Dywedodd y Maer y byddai'n adrodd y difrod fel fandaliaeth i'r Heddlu'n ystod cyfarfod nesaf y cyngor tref o'r 29ain Hydref.*** Er lles iechyd y cyhoedd teimlwyd na ddylid caniatau cŵn ar y cae ar unrhyw amod. ***Cytunodd y Cyng Thomas a'r Cyng Wilson i osod yr arwydd mewn lle unwaith yn rhagor, y tro hwn yn sownd ar y ffens***. Gofynnir i'r Heddlu i gadw llygad barcud ar y cae. ***Adroddodd y Cyng Thomas ei fod yn dal i ddisgwyl yr arwyddion parthed cŵn yn baeddu, dan law'r heddlu.***

5.7 GATIAU NEWYDD
Bu i'r Cyng Thomas a'r Cyng Wilson osod y gât am yr eildro. ***Cytunwyd i folltio'r gatiau mawrion.***

5.8 AWGRYMIADAU-DEFNYDD POSIBL AR GYFER Y CAE YN YSTOD Y DYFODOL
Bu i Lizzie James lunio a dosbarthu tua 400 o daflenni i drigolion y dref yn ymwneud â holiadur yn gofyn am syniadau ar gyfer defnydd posibl y cae yn ystod y dyfodol. Roedd fframau dringo, trac rhedeg a pharc sglefrio'n syniadau poblogaidd.

Boed i rai aelodau ymweld â pharc chwarae Castell-Newydd Emlyn a bu'r Cyng. Barton yn ymweld â pharc sglefrio'n Nrefach-Felindre sy'n cael ei redeg gan gorff gwirfoddol.

Penderfynwyd y byddai'r cae'n cael ei ddatblygu fel amwynder ar gyfer pobl ieuainc yn eu harddegau gan fod lleoedd chwarae ar gael yn barod yn y dref ar gyfer plant yn iau.

Adroddodd Sue Davies bod un o drigolion Maesyderi wedi cynnig ei wasanaeth i greu adeiladwaith o'r goeden yr helygen ar y cae'n rhad ac am ddim. Roedd syniadau eraill yn cynnwys graffiti "trefnus".

Penderfynwyd y dylid llunio cynllun/map ar gyfer defnydd dyfodol y cae Penderfyniadau:

1. **Beth yn union** sydd angen eu lleoli ar y cae – byddai'n anghenrheidiol i ymgynghori â phlant Ystâd Maesyderi i ofyn am eu mewnbwm ac i greu'r teimlad o berchnogaeth.
2. **Byddai rhaid bwrw cyfrif ar y gost**. Dywedodd y Maer, cyn belled, y mae'r cyngor tref wedi cwrdd â'r costau heb lunio cyllid arbennig ar gyfer y cae. Gellir codi arian wrth drefnu gweithgareddau codi arian, derbyn grantiau (bydd Lizzie James yn trafod grantiau gyda Teleri Davies CAVO); y posibilrwydd o godi'r praesept i gwrdd â'r gost ychwanegol neu defnyddio peth o'r arian sydd wth gefn gan y Cyngor Tref.

5.9 ADRODDIAD CYNNYDD AR GYFER Y WASG
Cutunwyd bod Eleri Thomas yn cyflwyno adroddiad cynnydd i'r Wasg o dan newyddion yn ymwneud â'r pentref (Cambrian News; Carmarthen Journal; Clonc) i hysbysu aelodau'r cyhoedd o'r gwaith sydd wedi ei ymgymryd yn barod ar y cae a'r gwaith y bwriedir ei gyflawni'n ystod y dyfodol, i geisio ennyn diddordeb y cyhoedd a cheisio gwirfoddolwyr o'r gymuned.

5.10 MYNYDD O BRIDD AR Y CAE
Cytunodd Sue Davies i ofyn i un o drigolion Maesyderi tybed a fyddai'n bosibl iddo adleoli'r mynydd o bridd o'r safle pesennol gan ddefnyddio JCB. Gellir defnyddio'r pridd yn ystod y dyfodol ee ar gyfer creu trac-baw.

5.11 Bu i'r Cyng Thomas adleoli 2 fainc nad oedd eu hangen bellach o Barc Parc-yr-Orsedd i Gae Maesyderi. ***Y mae yn y broses o drwsio mainc arall a oedd yn weddill o Barc-yr-orsed, yn ei gartref, cyn ei throsglwyddo i'r cae.***

5.12 Mae mynyddoedd gwaddod yn broblem ar y cae.

6. CYLLID
GWARIANT:

EITEM	PRIS HEB TAW	TAW £	CYFANSWM £
GÂT	365.00	54.75	419.75
ARWYDD NEWYDD	109.00	16.35	125.35
6 TORIAD GWAIR			800.00
Argraffu 400 o daflenni			36.00
CYFANSWM Y GWARIANT CYN BELLED			**£1,381.10**

Gan nad oedd unrhyw fater arall daeth y Cyfarfod i ben am 8.20pm.

7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
Nos Fawrth 24ain o Dachwedd am 7.00pm. Swyddfa Menter Llambed.

----------(Cadeirydd & Dyddiad)